Yswiriant Gwladol

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Mawrth 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Ynglŷn ag Yswiriant Gwladol 5
Beth yw Yswiriant Gwladol?.....5
A oes rhaid i mi dalu Yswiriant Gwladol? ..5
Pam fod yn rhaid i mi dalu Yswiriant Gwladol?.....6
Faint sy'n rhaid i mi ei ennill i dalu Yswiriant Gwladol? 6
Beth os bydd rhywbeth yn newid?.....7
Eich rhif Yswiriant Gwladol 7
Beth yw rhif Yswiriant Gwladol?.....7
Pryd dylwn i wneud cais am rif Yswiriant Gwladol?.....8
Sut ydw i'n cael rhif Yswiriant Gwladol? 8
Sut ydw i'n profi pwy ydw i? 9
Beth ydw i'n ei wneud gyda'm rhif Yswiriant Gwladol?.....10
Beth os na allaf ddod o hyd i'm rhif Yswiriant Gwladol?.....10
Cael rhif Yswiriant Gwladol pan fyddwch yn dod o dramor 11
Pa ddulliau adnabod sydd eu hangen arnaf os ydw i'n dod o dramor?.....11

Talu Yswiriant Gwladol.....13
Sut ydw i'n talu Yswiriant Gwladol? 13
Dosbarthiadau o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.....13
Pa Yswiriant Gwladol rydw i'n ei dalu os ydw i'n gweithio? 14
Pa Yswiriant Gwladol rydw i'n ei dalu os ydw i'n gweithio i fy hun?.....14
A allaf ddewis talu Yswiriant Gwladol? 15
Beth yw credydau Yswiriant Gwladol? 15
Credydau yswiriant gwladol i ddynion dros 60 oed 16
I gael rhagor o wybodaeth.....17

Ynglŷn ag Yswiriant Gwladol

Beth yw Yswiriant Gwladol?

Rydych chi'n talu Yswiriant Gwladol fel y gallwch gael budd-daliadau penodol pan fydd eu hangen arnoch – ac fel y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r swm rydych yn ei dalu yn dibynnu ar y math o waith rydych chi'n ei wneud a faint rydych chi'n ei ennill.

A oes rhaid i mi dalu Yswiriant Gwladol?

Rhaid i chi dalu Yswiriant Gwladol os ydych yn 16 oed neu drosodd, eich bod yn gweithio, a'ch bod yn ennill swm penodol o arian.

Unwaith y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ni fyddwch yn talu Yswiriant Gwladol mwyach. Nid oes rhaid i chi ymddeol i roi'r gorau i'w talu.

Os ydych yn gweithio i chi eich hun rhaid i chi dalu Yswiriant Gwladol, heblaw mewn rhai achosion lle mae'r elw sy'n weddill gennych ar ôl talu treth a threuliau eraill yn is na swm penodol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chyllid a Thollau EM.

Cyllid a Thollau EM:

Newydd ddod yn hunangyflogedig

Ffôn:
0845 915 4515

Ffôn testun:
0845 915 3296

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am ac 8pm ac ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, rhwng 8am a 4pm.

I gael rhagor o wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Pam fod yn rhaid i mi dalu Yswiriant Gwladol?

Mae cael rhai budd-daliadau yn dibynnu ar faint o Yswiriant Gwladol rydych wedi'i dalu. Ymhlith y budd-daliadau hyn mae:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd
- Pensiwn y Wladwriaeth, a
- budd-daliadau profedigaeth.

Bydd talu Yswiriant Gwladol yn eich helpu, er enghraifft, os gwnewch golli eich swydd neu fynd yn rhy sâl i weithio. Bydd hefyd yn eich helpu pan fyddwch yn ymddeol.

Faint sy'n rhaid i mi ei ennill i dalu Yswiriant Gwladol?

Os nad ydych yn siwr, gallwch ofyn i'r unigolyn rydych yn gweithio iddo i ddweud wrthych a ydych yn ennill digon i dalu Yswiriant Gwladol. Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch fynd i www.hmrc.gov.uk/rates i gael y cyfraddau ar gyfer eleni.

Beth os bydd rhywbeth yn newid?

Os byddwch yn symud tŷ, priodi, ysgaru neu'n cael eich gwneud yn weddw, neu'n newid eich enw, rhaid i chi roi gwybod i Gyllid a Thollau EM. Os ydych yn gwneud cais am fudd-dal, mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith beth yw'r newid a phryd y digwyddodd.

Pan fyddwch yn agosáu at oedran Pensiwn y Wladwriaeth, byddwn yn eich gwahodd i hawlio unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth y mae gennych yr hawl iddo. Ni allwn wneud hyn os nad oes gennym eich cyfeiriad cyfredol.

Eich rhif Yswiriant Gwladol

Beth yw rhif Yswiriant Gwladol?

Dim ond chi fydd yn cael eich rhif Yswiriant Gwladol. Mae'n cynnwys llythrennau a rhifau ac mae'n edrych yn debyg i hyn:

AB 11 22 33 C

Enghraifft yw hon – ni allwch ddefnyddio'r rhif hwn.

Mae angen eich rhif Yswiriant Gwladol i wneud y canlynol:

- talu eich Yswiriant Gwladol, a
- cael budd-daliadau.

Ni allwch ddefnyddio eich rhif Yswiriant Gwladol i brofi pwy ydych chi – nid yw'n ddull adnabod.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Pryd dylwn i wneud cais am rif Yswiriant Gwladol?

Dylech gael rhif Yswiriant Gwladol pan fyddwch yn 16 oed, ond mae'n rhaid i rai pobl wneud cais am un.

Dylech wneud cais am rif Yswiriant Gwladol os nad oes un gennych yn barod, a:

- rydych am hawlio budd-daliadau
- mae eich partner yn hawlio budd-daliadau drosoch
- rydych wedi dechrau neu ar fin dechrau gweithio
- rydych yn hunangyflogedig
- mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn dweud wrthych wneud hynny, neu
- mae gennych hawl i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth 3 ac rydych am wneud hynny.

Sut ydw i'n cael rhif Yswiriant Gwladol?

Os oes angen rhif Yswiriant Gwladol arnoch oherwydd eich bod wedi dechrau gweithio, neu ar fin dechrau gweithio, ffoniwch 0845 600 0643 (ffôn testun 0845 600 0644). Os oes angen rhif Yswiriant Gwladol arnoch am unrhyw reswm arall, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Bydd angen i ni wirio ambell i beth gyda chi cyn i ni roi rhif Yswiriant Gwladol i chi. Yn gyntaf, byddwn yn gwneud yn siwr bod angen rhif Yswiriant Gwladol arnoch. Yna byddwn yn gwneud yn siwr nad oes gennych un yn barod.

Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol a bod angen un arnoch, byddwn yn

I gael rhagor o wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

ysgrifennu atoch ac yn gofyn i chi ddod i'n gweld ni. Yna byddwn yn gwneud yn siwr mai chi yw pwy rydych yn honni bod a, lle y bo'n briodol, a oes gennych hawl i fyw yn y DU. Mae hyn er mwyn diogelu eich Yswiriant Gwladol a'ch ceisiadau am fudd-daliadau.

Ar ôl i ni eich gweld, byddwn yn ysgrifennu atoch cyn gynted â phosibl. Os gallwch gael rhif Yswiriant Gwladol, byddwn yn dweud wrthych beth ydyw. Yna byddwch yn cael cerdyn gyda'ch rhif arno. Os na allwch gael rhif Yswiriant Gwladol byddwn yn dweud pam wrthych.

Sut ydw i'n profi pwy ydw i?

Os ydych o'r DU neu'r Gymuned Ewropeaidd (gweler tudalen 18) byddwn yn gofyn pwy ydych chi a pham eich bod am gael rhif Yswiriant Gwladol. Bydd hyn yn helpu i brofi pwy ydych, ond bydd hefyd angen i chi ddod â dull adnabod. Efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau ffurflen, hefyd.

Pan fyddwn yn rhoi dyddiad i chi gwrdd â ni, byddwn yn dweud wrthych beth sy'n rhaid i chi ddod â chi. Bydd yr hyn sy'n rhaid i chi ddod gyda chi yn dibynnu ar pam fod angen rhif Yswiriant Gwladol arnoch. Ond, os ydych am gael syniad o beth y gallai fod, gallwch ofyn i un o'n hymgynghorwyr.

Cewch gyfarfod ag un unigolyn, oni bai bod angen rhywun i ddehongli drosoch. Efallai y bydd angen i ni gadw tystiolaeth o bwy ydych am gyfnod byr. Byddwn yn rhoi derbynneb i chi ar gyfer unrhyw beth sydd angen i ni ei gadw.

Beth ydw i'n ei wneud gyda'm rhif Yswiriant Gwladol?

Dylech gadw eich rhif Yswiriant Gwladol yn ddiogel.

Bydd angen i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol i ni pan fyddwch yn gwneud cais am rai budd-daliadau.

Pan gewch swydd neu pan fyddwch yn dechrau swydd newydd, dylech roi eich rhif Yswiriant Gwladol i'r unigolyn rydych yn gweithio iddo.

Os ydych yn gweithio i chi'ch hun, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM a rhoi eich rhif Yswiriant Gwladol iddynt fel y gallwch ddechrau talu Yswiriant Gwladol eich hun.

Efallai y bydd angen i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol i wneud cais am fenthyciad myfyriwr. Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn dweud wrthych os mai dyma'r achos.

Beth os na allaf ddod o hyd i'm rhif Yswiriant Gwladol?

Bydd eich rhif Yswiriant Gwladol ar rai ffurflenni neu lythyrau, fel eich slipiau talu a ffurflenni treth.

Os na allwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol, gallwch ofyn i un o'n hymgynghorwyr a byddant yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud. Os na allwch ddod o hyd i'r cerdyn y gwnaethom ei anfon atoch gyda'ch rhif Yswiriant Gwladol arno dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM. Rhaid cwblhau ffurflen er mwyn cael cerdyn newydd, ond gallwch ond cael un cerdyn newydd felly dylech sicrhau eich bod yn gofalu amdanynt.

Cael rhif Yswiriant Gwladol pan fyddwch yn dod o dramor

Os byddwch yn symud i'r DU byddwn yn gofyn i chi ddod i'n gweld ni i gael eich rhif Yswiriant Gwladol.

Os oes angen rhif Yswiriant Gwladol arnoch oherwydd eich bod am weithio, byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym am eich hawl i weithio yn y DU. Bydd yr hyn y byddwch yn ei ddweud wrthym yn ein helpu i brofi pwy ydych chi a'ch bod yn gallu gweithio yn y DU. Pan fyddwch yn cwrdd â ni gallwch ofyn am ddehonglydd os oes angen un arnoch.

Gallem ofyn am gael gweld eich trwydded waith neu lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n dweud y gallwch weithio yn y DU.

Pa ddulliau adnabod sydd eu hangen arnaf os ydw i'n dod o dramor?

Mae'n rhaid i bawb sy'n gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol allu profi pwy ydynt.

Os ydych newydd ddod i'r DU ar ôl byw y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, rhaid i chi ddod â phrawf adnabod gyda chi. Gallai hyn fod yn basbort neu'n gerdyn Yswiriant Gwladol.

Os ydych yn geisiwr lloches, dylech ddod â'r ffurflen a gawsoch pan wnaethoch gais am loches gyda chi. Os oes gennych unrhyw beth arall rydych o'r farn y gallai helpu i brofi pwy ydych, dewch ag ef gyda chi.

Os nad oes gennych ddull adnabod rhaid i chi ddal i ddod i'n gweld. Mae'n bosibl y gallech brofi pwy ydych o'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym.

Talu Yswiriant Gwladol

Yn y rhan hon o'r daflen byddwn yn dweud wrthych sut rydych yn talu Yswiriant Gwladol. Byddwn yn egluro'r mathau o Yswiriant Gwladol sydd ar gael – mae'r rhain yn cael eu galw'n 'ddosbarthiadau' o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Byddwn hefyd yn dweud wrthych beth sy'n digwydd os na allwch dalu Yswiriant Gwladol ond yn dal am sicrhau y gallwch gael budd-daliadau a Phensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol.

Sut ydw i'n talu Yswiriant Gwladol?

Os ydych yn gweithio i chi eich hun ac yn ennill digon, daw eich taliadau Yswiriant Gwladol yn syth o'ch cyflog – nid oes yn rhaid i chi wneud dim.

Os ydych yn gweithio gallwch ddewis talu Yswiriant Gwladol bob tri mis (cewch fil) neu drwy ddebyd uniongyrchol yn syth o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM i drefnu hyn.

Dosbarthiadau o gyfraniadau Yswiriant Gwladol

Ceir chwe dosbarth o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Dim ond tri sy'n cyfrif tuag at fudd-dal – dosbarthiadau 1, 2 a 3.

Pa Yswiriant Gwladol rydw i'n ei dalu os ydw i'n gweithio?

Os ydych yn gweithio rydych yn talu rhan o'r arian rydych yn ei ennill tuag at eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Caiff yr arian ei dynnu o'ch tâl cyn i chi ei gael. Gelwir hyn yn gyfraniad dosbarth 1.

Os nad ydych yn ennill digon o arian, nid oes rhaid i chi dalu Yswiriant Gwladol. Mae amgylchiadau cyfyngedig eraill hefyd lle mae'n bosibl na fyddwch yn talu Yswiriant Gwladol ond gallem eich trin fel pe baech wedi ei dalu os yw eich enillion yn agos i'r lefel lle y byddai'n rhaid i chi ei dalu.

Pa Yswiriant Gwladol rydw i'n ei dalu os ydw i'n gweithio i fy hun?

Os ydych yn gweithio i chi eich hun bydd yn rhaid i chi dalu swm penodol o Yswiriant Gwladol bob wythnos. Gelwir hyn yn gyfraniad dosbarth 2.

Os ydych yn gwneud digon o elw byddwch hefyd yn gorfod talu cyfraniad arall fel canran o'r elw hwnnw. Gelwir hyn yn gyfraniad dosbarth 4.

Os nad ydych yn gwneud llawer o elw, gallwch wneud cais i beidio â thalu Yswiriant Gwladol, ond bydd hyn yn effeithio ar y budd-daliadau y gallai fod hawl gennych i'w cael yn y dyfodol.

A allaf ddewis talu Yswiriant Gwladol?

Os nad ydych yn talu digon o Yswiriant Gwladol os ydych yn gweithio neu'n gweithio i chi'ch hun, mae'n bosibl y gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol.

Gallwch ddewis talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol os ydych am gadw neu wella eich hawl i gael budd-daliadau profedigaeth a'ch Pensiwn y Wladwriaeth. Gelwir hyn yn gyfraniad dosbarth 3.

Beth yw credydau Yswiriant Gwladol?

Os na allwch weithio, gallem dalu eich Yswiriant Gwladol drosoch. Gelwir y taliadau hyn yn 'gredydau Yswiriant Gwladol'. Os na allwch weithio mae'n golygu na allwch dalu Yswiriant Gwladol dosbarth 1 na dosbarth 2 – a gallai hynny effeithio ar eich budd-daliadau yn y dyfodol.

Gallwch hefyd gael credydau Yswiriant Gwladol gyda rhai budd-daliadau. Ond hyd yn oed os na allwch gael y budd-daliadau, gallech barhau i gael credydau Yswiriant Gwladol. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith (gweler tudalen 17) i weld a allwch gael credydau Yswiriant Gwladol am na allwch weithio. Os gallwch gael credydau Yswiriant Gwladol, byddwn yn dweud wrthych sut i wneud cais.

Credydau yswiriant gwladol i ddynion dros 60 oed

Ar hyn o bryd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw 60 i ferched a 65 i ddynion. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn codi'n raddol rhwng mis Ebrill 2010 a 2020, o 60 i 65 oed.

Oherwydd hyn, gall dynion gael credydau Yswiriant Gwladol yn awtomatig ar gyfer y flwyddyn dreth lle y byddai merch o'r un oedran yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Mae blwyddyn dreth yn rhedeg rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Os cawsoch eich geni ar neu cyn 5 Hydref 1954, mae'n berthnasol i chi. Byddwch yn parhau i gael credydau treth hyd at flwyddyn dreth eich pen-blwydd yn 64 oed. Er mwyn cael y credydau hyn, nid oes rhaid i chi dalu Yswiriant Gwladol eich hun, ac ni allwch adael y DU am fwy na chwe mis. Os ydych yn y sefyllfa hon, nid oes angen i chi wneud cais i gael credydau Yswiriant Gwladol, gan y byddwn yn ei drefnu ar eich rhan.

Er mwyn gweld pryd y bydd hyn yn berthnasol i chi, defnyddiwch ein cyfrifiannell i chwilio am oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched a anwyd ar yr un dyddiad â chi. Ewch i www.direct.gov.uk/cyfrifannellpensiwn

I gael rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â Chyllid a Thollau EM

Ffoniwch: 0845 302 1479

Ffôn testun: 0845 915 3296

Gwefan: www.direct.gov.uk/money
Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 5pm.

Mae'r llinell gymorth yma yn delio â'r rhan fwyaf o ymholiadau cyffredinol am Yswiriant Gwladol.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith

Ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gallwch weld y manylion yn eich llyfr ffôn.

I gael rhagor o wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Geirfa

Prydain Fawr

Cymru, Lloegr a'r Alban.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Ystyr y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

Gwledydd lle mae rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn berthnasol

Gwledydd yr Undeb Ewropeaidd: Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Gweriniaeth Siec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen (gan gynnwys Ynysoedd Baleares a Dedwydd), Sweden a'r DU (gan gynnwys Gibraltar ond nid Ynys Manaw nag Ynysoedd y Sianel).

Mae rheolau gofal iechyd a nawdd cymdeithasol y Undeb Ewropeaidd hefyd yn berthnasol i Wlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir.

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn testun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd i lefaru neu glywed yn glir.

Os nad oes gennych ffôn testun, efallai bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfannau cyngor ar bopeth un.

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bynciau yn amrywio o fudd-daliadau i drwyddedau gyrru a gwasanaethau lleol y GIG. Ewch i
www.direct.gov.uk/cy

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-041-4
DWP1006W | f1.1 (Mawrth 2010 | v1.1 (March 2010)